Cyngor Cymuned
Pentir

# Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 9fed o Hydref 2025 fu yng Nghanolfan PENRHOSGARNEDD

1. Presennol: /Present

Cyng I Ellis  Cadeirydd; Cyng J Pierce; Cyng L A James; Cyng D Jones-Morris; Cyng B Jones; Cyng E Roberts; a'r Clerc

2. Ymddiheuriadau: Apologies

Cyng C W Owen Is Gadairydd; Cyng J Griffiths; Cyng H Griffiths Cyng M Jones; Cyng G Owen; Cyng A Joyce;

3. Croeso  / Welcome

Estynwyd gair o groeso gan y Cadeirydd ag ymddiheuriad fod ein gwestai wedi anfon gair yn gynharach yn esbonio oherwydd anhwylder iechyd ei bod yn methu bod yn bresennol ond yn gobeithio cael cyfle eto i ddod atom

4. Cyflwyniad gan Poppy Backshall o Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru Am ail-drefnu dyddiad
5. Datgan buddiant / declaration of interest

Cyng L. A. James yn ymddiriedolwr ar bwyllgor Canolfan Penrhos

6. Derbyn cofnodion / Accept Minutes  11eg o Fedi / Sept 2025

Derbynwyd eu cywirdeb ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce

7. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising

Daeth i'n sylw ddoe, yn sgil derbyn galwadau ffon at y Clerc, fod Pwyllgor Rheoli y ganolfan wedi anfon at eu defnyddwyr yn datgan fod y Ganolfan yn cau diwedd Rhagfyr.

Nid oedd esboniad sut oedd hyn wedi digwydd oherwydd gan nad oeddem, er pob ymdrech, wedi cael cyfle i gyfarfod y Pwyllgor Rheoli i rannu y wybodaeth a'r Cadeirydd wedi datgan bod y wybodaeth rannwyd yng nghyfarfod Mis Medi yn 'gyfrinachol a sensitif'

**Cadeirydd a'r Clerc i ymchwilio i'r mater**

<u>Bocsys Blodau Contractwr</u> wedi eu llenwi a phlanhigion a hefyd eu paentio Nodwyd bod ein contractwr yn cymeryd gwir ofal ohonynt ag wedi adrodd i'r Clerc bod 2 focs arall wedi pyrdu ag angen ei atgyweirio

**Clerc wedi archebu 2 ond rheolwr y Gweithdy ar ei wyliau**

<u>Archwylio allannol</u>

Adroddiad derfynnol 2024-25 wedi ein cyrraedd

Tynwyd sylw fod y Cyngor angen cyhoeddi eu agenda ay y wefan yn ogystal a'r cofnodion

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith

<u>Ffordd Cylchfan JLS i Cylchfan Treborth</u>

Datgelwyd pryder fod y ffordd yma yn parhau ar gau er bod y llwybr Llesiant arni wedi ei gwblhau a aelodau wedi cael ar ddeallt bod yn Cwmni Bellach yn ei defnyddio fel ardal storio (Compound)

**Cadeirydd am gysylltu a swyddogion traffig**

GwyrddNi  Cyng L A James mewn cyswllt hefo dylunydd y Murlun ag angen goriad i fedru mesur y gofod

**Angen trefnu gyda'r Prifathro**

Cyngor Cymuned
Pentir

8. Materion ariannol / Financial Issues iv.
Mantolen ariannol / Financial report

Mantolen ariannol ddosbarthwyd yn dangos £39,362.85 yn y Cyfrif Cyfredol a £42,106.86 yn y Cyfrif Cadw yn dilyn derbyn llog o £165.38 Cadarnhawyd i'r Clerc dalu y taliadau oedd ddyledus

Taliadau Ar-lein - Clerc wedi bod yn y gangen a'r staff wedi gadarnhau ond bod yn rhaid cofrestru arlein

v. Cofnodion cyfarfod PC / Minutes of F C 24/09/2025

Polisi meinciau cofhaol wedi ei adnabod ond angen ei addasu ar ein cyfer a'i gyfeieithu

9. Cynllunio / Planning

Dim cais Mis yma

10. Materion y Clerc / Topics from the Clerk

- GwyrddNi - Yr arbennigwyr oedd gennym dan sylw heb ddod yn ol at y Clerc Cyng L A James am drefnu cael agor y ganolfan
- Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol

Dim datblygiad pellach ond trafodaethau yn parhau ynglyn a diffyg llefydd parcio

- Capel y Fynwent

Pris wedi ei dderbyn ar gyfer gosod gosodiad cyntaf trydan yng nghornel lle bydd y gegin

Trafodwyd llaithder yn treiddio drwy'r pared sy'n gwynebu y storm a bod Eglwys St Cedol yn amlwg yn atgyweirio eu pared hwythau

**Clerc i holi am amcanbris pigo – pwyntio a selio**

- Hyfforddiant Modiwl 6 Cyllid Hydref 29

Bydd hyfforddiant ymlaen yn y Ganolfan yn Penrhos a dwahoddiad wedi ei estyn i gynghorau cyfagos

11. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics

Cyng D Jones Morris

Llwybr Llesiant – beicwyr a cerddwyr

Mynegodd gryn bryder ynglyn a'r ffeithiau canlynnol

Rasio beics a scwtyrs ar y llwybr mysg cerddwyr

Dylia yr Heddlu fod yn ymwybodol o'r uchod

Na fydd y ffordd y lled priodol ar y darn newydd sy'n cael ei adeiladu

**Gwahodd yr heddlu i un o'n cyfarfodydd a'r Cyng am gysylltu a'r A S**

Costau cael llinnellau Ffyrdd Wrth edrych ar eu gwefan Cytundeb 'agored' sydd gan y Cwmni o Manceinion sy'n gwneud y gwaith i Gwynedd a felly dim ond yn ymweld pan fydd diwrnod llawn o waith ag os nad ydynt yn gweithio ar draffyrdd yn Lloegr Cyng I Ellis

Goleuadau Nadolig Y goleuadau wedi cyrraedd Cwm y Glo ag wedi eu talu amdanynt

12. Newyddion

Posib cysylltu a'r Cyng J Griffiths i gael lluniau o'r arddangosfa

Cyngor Cymuned
Pentir

# Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Dachwedd 2025 yng Nghanolfan PENRHOSGARNEDD am 7.00 y'h
# Agenda

1. Presennol: /Present

2. Ymddiheuriadau: Apologies

3. Croeso / Welcome

4. Datgan buddiant / declaration of interest

5. Derbyn cofnodion / Accept Minutes 09fed o Hydref / October 2025

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising

7. Materion ariannol / Financial Issues
   i. Mantolen ariannol / Financial report ii.
   Taliadau Ar-lein - 2 i gadarnhau
   iii. Cynhalwyd Noson Hyfforddiant / Training course Modiwl 6 Cyllid 29/10/2025

9. Cynllunio / Planning

10. Materion y Clerc / Topics from the Clerk
    - GwyrddNi -
      - Prosiect Sioned Glyn
    - Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol
    - Capel y Fynwent

11. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics
    Cyng I Ellis
    Goleuadau Nadolig

12. Newyddion
    Materion i'w ychwanegu i'r wefan –